Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY*

## *10.00 AM DYDD GWENER, 16 EBRILL 2021*

## *O BELL TRWY TEAMS*

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 5 - 18)*
   - 5 Chwefror 2021
   - 17 Mawrth 2021

5. Diogelwch Cymunedol - Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod y Pandemig *(Tudalennau 19 - 34)*

6. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

7. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 35 - 48)*

8. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Gwener, 9 Ebrill 2021**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.K.Hunt**

**Is-gadeirydd:** **R.L.Taylor**

**Cynghorwyr:** D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

(5) *Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 5 Chwefror 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey a/ac N.T.Hunt |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | N.Pearce, C.Morris, S.Brennan, C.Jones, C.Plowman, N.Headon, E.Barrett, K.Davies a/ac M.Shaw |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave, L.Jones a/ac C.Clement-Williams |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Hysbyswyd y Pwyllgor o newid i'r adroddiad canlynol ar Agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 7 ar yr Agenda - Cynnig i ehangu'r gwasanaeth presennol a ddarperir gan y Tîm Cyswllt Camddefnyddio Sylweddau Cychwynnol (PSALT)

Yn dilyn y diweddariad, roedd yr Aelodau'n hapus gyda'r newidiadau, felly dewiswyd peidio â chraffu ar yr adroddiad.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 4 Rhagfyr 2020
- 23 Rhagfyr 2020

3. **YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DWRISTIAETH**

Derbyniodd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am effaith COVID-19 ar y sector Twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot a gweithgareddau Tîm Twristiaeth y Cyngor sydd ar ddod.

Tynnodd swyddogion sylw at yr effaith negyddol sylweddol y cafodd cychwyniad y pandemig ar y sector Twristiaeth; roedd yr adroddiad yn manylu ar ffigurau a ddangosodd ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr (63.5%) a gostyngiad yn yr economi (66.4%). Nodwyd nad oedd y data'n cynrychioli 12 mis llawn 2020, a bydd cyfyngiadau symud pellach a gyhoeddwyd tua diwedd y flwyddyn yn effeithio ymhellach ar y data hwn.

Wrth symud ymlaen, nodwyd mai un prif ffocws fyddai edrych ar sut y gellid helpu'r sector Twristiaeth er mwyn iddo adfer o COVID-19; dros y 12 mis diwethaf roedd swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad â'r darparwyr twristiaeth.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Tîm Twristiaeth wedi gweithio ochr yn ochr â'r Timau Busnes i gefnogi pob busnes ar draws y sector i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar yr holl gymorth ariannol a oedd ar gael gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac unrhyw gymorth grant arall. Nodwyd bod y broses cymeradwyo llety gweithwyr allweddol hefyd wedi'i rheoli gan y Tîm Twristiaeth, wrth weithio mewn partneriaeth â Thîm Iechyd yr Amgylchedd, gan ei bod yn ofynnol i bob llety i ymwelwyr gau yn unol â'r cyfyngiadau symud amrywiol; roedd y broses gymeradwyo'n caniatáu mynediad i'r rheini yr oedd ganddynt reswm dilys dros fod yn yr ardal, y rheini a oedd yn weithwyr allweddol a'r rheini yr oedd angen llety arnynt mewn argyfwng.

Soniwyd bod swyddogion, drwy gydol y pandemig, wedi cydweithio llawer â phartneriaid yn y sector cyhoeddus, yn enwedig gyda Croeso Cymru, a bod cyswllt wedi bod â sefydliadau gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i sicrhau bod ardaloedd, fel y sgydau, yn cael eu rheoli yn y ffordd orau bosib; roedd y cyfarfodydd a'r cyfathrebiadau hyn yn parhau.

Darparodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am rai o brosiectau cyfredol y sectorau Twristiaeth, a oedd yn cynnwys:

- Hwb Cwm Nedd ym Maes Parcio Camlas Resolfen - roedd y gwaith i adnewyddu hen gyfleuster bloc toiledau yn Resolfen

bellach wedi'i gwblhau a byddai'r deiliad newydd yn symud yno cyn bo hir;

- Parc Rhanbarthol y Cymoedd Canolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan – roedd y cyngor wedi derbyn cyllid i wneud amrywiaeth o waith gan gynnwys uwchraddio rhai cyfleusterau presennol o amgylch y toiledau a'r cawodydd, ychwanegu ardal barcio ychwanegol, darparu mannau cysylltu trydan ar gyfer faniau gwersylla, creu pwynt gwybodaeth ddigidol i ymwelwyr, gosod goleuadau ychwanegol ac adeiladu ardal chwarae i blant;
- Prif Gynllun Parc y Gnoll – roedd y cynllun datblygu wedi'i gwblhau, ac fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd bydd y Tîm Twristiaeth nawr yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym Mharc Gwledig y Gnoll i gyflawni'r cynigion;
- Marchnata Cyrchfannau – byddai'r ymgyrch hon,  i lansio brand lle newydd Castell-nedd Port Talbot, yn ddarn allweddol o waith. Soniwyd bod y dyddiad lansio wedi'i ohirio oherwydd y pandemig;
- Arall – roedd arwyddion wedi'u dosbarthu ar Lan Môr Aberafan, yn ogystal â'r gampfa awyr agored.

Mynegodd yr Aelodau eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd yn gynnar er mwyn bwydo i mewn i'r gwaith o adolygu ac adnewyddu'r cynllun; gofynnwyd hefyd a allai'r Aelodau gael rhagolwg o'r wefan newydd ar ryw adeg. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r Pwyllgor yn ymwneud â'r gwaith hwn yn y dyfodol, fel y cytunwyd yn flaenorol, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithdai amrywiol; oherwydd COVID-19 a blaenoriaethu cefnogi'r sector twristiaeth drwy'r pandemig, nid oedd y cyngor yn gallu lansio'r cynllun newydd eto.

Gofynnwyd, unwaith y byddai'r pandemig ar ben, a allai'r Pwyllgor edrych yn ôl ar y diwydiant Twristiaeth a sut yr oedd COVID-19 wedi effeithio arno'n gyffredinol. Soniwyd mai'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer hyn fyddai ystadegau STEAM, sef model a ddefnyddiwyd i fesur yn gyson dros y 10+ mlynedd diwethaf. Cadarnhaodd swyddogion y gallent hefyd ymchwilio i ddata ansoddol. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd unrhyw fusnesau wedi methu ar hyn o bryd oherwydd pwysau'r pandemig, a'u bod yn goroesi'r hinsawdd bresennol o drwch blewyn.

Gofynnwyd i swyddogion a oeddent wedi bod yn derbyn cymorth gan Croeso Cymru drwy gydol y pandemig, a chadarnhawyd bod gan y

cyngor berthynas waith dda â'r sefydliad a'u bod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd wrth weithio gyda nhw hyd yma.

Holodd yr Aelodau a allai'r Pwyllgor ymweld â rhai o'r busnesau yr effeithiwyd arnynt gan COVID-19 pan oeddent yn ailagor. Soniodd swyddogion y gellid trefnu hyn ac y byddai'n ffordd dda o ddangos cefnogaeth.

Dywedwyd bod y cyfyngiadau symud wedi helpu preswylwyr i ailgyfeirio'r hyn yr oedd gan Gastell-nedd Port Talbot i'w gynnig a'i bod yn bwysig, ar ôl i gyfyngiadau gael eu codi, sicrhau bod unigolion nad oeddent yn lleol yn darganfod hyn hefyd drwy hyrwyddo'r Fwrdeistref Sirol. Amlygodd swyddogion fod y cysylltiadau rhwng y cynnig twristiaeth, gwerthiannau yn y fwrdeistref sirol a dangos agweddau ehangach ar yr ardal a'r hyn yr oedd ganddi i'w chynnig oll yn bwysig fel sail i'r cynnig datblygu; roedd hyn yn hanfodol wrth ddenu mewnfuddsoddiad a gwerthu adeiladau, tir neu eiddo i unigolion. Soniwyd bod newidiadau wedi'u gwneud o ran y ffordd y gallai unigolion weithredu, ac roedd hyn yn rhywbeth a fyddai'n parhau; er enghraifft, roedd ffyrdd newydd o weithio drwy systemau fel Microsoft Teams, a oedd yn galluogi pobl i weithio gartref, a rhoi cyfle iddynt fyw mewn ardaloedd gwahanol felly. Ychwanegwyd y gallai hyn o bosib werthu'r fwrdeistref sirol i unigolion a rhoi hwb i'r economi mewn rhai ardaloedd.

Mewn perthynas â'r gampfa awyr agored ar lan môr Aberafan, gofynnwyd a oedd lle i ychwanegu mwy ohonynt drwy'r Sir. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn monitro defnydd o'r gampfa glan môr ac os oedd yn boblogaidd, gellid ystyried eu dyblygu mewn ardaloedd amrywiol eraill.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw sefydliadau, yn enwedig sefydliadau twristiaeth mwy a oedd wedi gwneud cais am y gronfa cadernid economaidd. Nodwyd nad oedd swyddogion yn gallu rhoi sylwadau ar achosion unigol o ran y cyllid grant a bod rhai nad oeddent yn gymwys, ond roeddent yn ymwybodol bod y mwyafrif wedi cael eu croesawu a bod y Tîm Busnes wedi gweithio'n dda i ddosbarthu arian i sectorau gwahanol. Hysbyswyd yr Aelodau mai un math yn unig oedd y gronfa cadernid economaidd o amrywiaeth o wahanol gronfeydd cyllid y gallai busnesau wneud cais amdanynt roedd nifer o ffactorau hefyd a oedd yn pennu a fyddai busnes yn gymwys ar gyfer cyllid. Soniwyd mai'r rheswm pam yr oedd cymaint o ffocws ar ddarparu cyngor i fusnesau oedd helpu i'w llywio drwy'r gwahanol opsiynau ariannu a'r camau y

byddai angen iddynt fynd drwyddynt er mwyn cael cyllid. Ychwanegodd swyddogion fod nifer bach iawn o fusnesau yn y fwrdeistref sirol heb dderbyn unrhyw gymorth ariannol o hyd; y rhain oedd y gweithredwyr hunanarlwyo llai nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer yr adeg pan gaiff y cyfyngiadau eu codi, ac roedd rhai pryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai’r cyngor yn cael llawer o ymwelwyr pan fyddai hyn yn digwydd, ac roedd rhai preswylwyr eisoes wedi cwyno am nifer y bobl a oedd yn ymweld ag ardaloedd penodol. Esboniodd swyddogion mai dyma un o'r rhesymau pam eu bod ymatal rhag bwrw ymlaen â gweithgareddau marchnata ar gyfer cyrchfannau penodol yn y sir, ac y byddai'n ddryslyd i unigolion pe bai'r cyngor yn anfon negeseuon cymysg yn perswadio pobl i ymweld â'r ardal, tra'n dweud wrthynt hefyd na allent ymweld â'r ardal. Nodwyd bod sgyrsiau wedi'u cynnal gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â'r sgydau, gan fod holl bartneriaid Gwlad y Sgydau (gan gynnwys awdurdodau lleol cyfagos) wedi cytuno i beidio â'u hyrwyddo, ond roedd nifer mawr o bobl yn dal i ymweld â nhw; er nad oedd y cyngor neu sefydliadau partner, fel Croeso Cymru, yn cynnal unrhyw ymgyrchoedd marchnata oherwydd y ffactorau hyn, roedd negeseuon gan y cyhoedd yn ymwneud â'r lleoedd hyn ar gyfryngau cymdeithasol yn annog pobl i ymweld ac roedd hyn yn achosi problemau gyda'r preswylwyr gan eu bod yn anhapus gyda nifer y twristiaid. Dywedwyd bod hyn yn anodd iawn ei reoli a chael y cydbwysedd cywir, gan nad oedd y cyngor yn cael unrhyw effaith ar y bobl sy'n rhannu'r negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol; fodd bynnag, roedd swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid i geisio rheoli'r negeseuon a oedd yn cael eu rhannu â'r cyhoedd.

Gofynnwyd a oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw brinder sgiliau neu weithwyr llafur. Cadarnhawyd nad oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw brinder newydd ar hyn o bryd, er y byddai unigolion sydd wedi gadael y diwydiant; mae'r sectorau hyn yn tueddu i fod yn eithaf byrhoedlog, gyda phobl yn dod yn rhan o’r sector ac yn ei adael yn aml gan mai dyma'r ffordd yr oedd yr economi'n gweithio. Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn anodd rhagweld prinder ar adeg pan oedd busnesau'n cael gwared ar staff yn hytrach na gofalu amdanynt; fodd bynnag, bu prinder llafur erioed o ran cogyddion a staff gwasanaeth yn y sector lletygarwch. Ychwanegwyd bod hyn yn rhoi cyfle i'r sector twristiaeth a lletygarwch, ar ôl COVID-19, i geisio helpu i recriwtio unigolion i'r swyddi hyn.

O ran cynlluniau ar gyfer digwyddiadau a gwyliau, hysbyswyd yr Aelodau nad oedd yr awdurdod ar y cam i ymgymryd â digwyddiadau; fodd bynnag, byddai angen gwneud penderfyniadau'n fuan o ran rhai o'r digwyddiadau mwy eu maint y mae'r sir yn eu cynnal bob blwyddyn, er enghraifft Ffair Castell-nedd a Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd; roedd y rhesymeg dros hyn o ganlyniad i'r cam hollbwysig o gael proses gynllunio ar waith, a oedd yn agosáu, sy'n cymryd tua 4-5 mis i'w chwblhau. Nododd swyddogion, pan sefydlwyd y Tîm Twristiaeth, eu bod wedi cael swm o arian ar gyfer cronfa digwyddiadau fach iawn fel rhan o'u cyllideb; y bwriad oedd lansio hyn gyda'r cynllun rheoli cyrchfannau newydd, gan y gallai o bosib helpu i adfer digwyddiadau a gwyliau pan oedd yn briodol eu cynnal. Nodwyd nad oedd swyddogion am ymrwymo arian i ddigwyddiad a fyddai o bosib yn cael ei ganslo, neu ar y llaw arall roi amser ac arian i ddigwyddiad na fyddai llawer o bobl yn mynd iddo, gan nad yw pobl efallai'n teimlo'n gyfforddus yn mynd oherwydd nifer y bobl y mae'r digwyddiadau hyn yn eu cynnwys ac agosrwydd pobl; Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus iawn.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad byr mewn perthynas â'r Cynllun Teithio Llesol; byddai adroddiad llawn yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu ar Adfywio a Datblygu Cynaliadwy a fydd yn manylu ar yr hyn y gwariwyd yr arian arno a sut roedd yr agenda teithio llesol yn mynd rhagddi. O ran y mapiau teithio llesol, dywedwyd wrth yr Aelodau fod y map rhwydwaith integredig ar waith, a'i fod yn cynnwys cymysgedd o lwybrau tymor byr, canolig a hir, yr oedd rhai ohonynt yn ddyheadol; pan baratowyd y map cychwynnol, gwnaed penderfyniad ymwybodol i gynnwys llawer o lwybrau uchelgeisiol er mwyn darparu cysylltiad gwell â chymunedau'r cymoedd a oedd wedi'u gwasgaru ledled y gymuned. Yn dilyn hynny, tynnwyd sylw at y ffaith bod swyddogion wedi cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru i geisio cyllid i gyflawni'r cynlluniau hynny, ond hyd yma nid oeddent wedi llwyddo i gael y ceisiadau penodol hyn; Ar hyn o bryd roedd Llywodraeth Cymru'n ceisio cael y fantais rifiadol o gael cynlluniau ym mhrif ganolfannau Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe gan nad oedd y boblogaeth yng nghymunedau'r cymoedd yn ddigon i ddangos bod gwerth am arian yn cael ei wario ar y llwybrau hynny. Hysbyswyd yr Aelodau fod y map yn cael ei adolygu eto eleni, a bod mwy o ganllawiau wedi'u cyhoeddi yr oedd swyddogion yn gobeithio y byddent yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran pa lwybrau y gallai Cynghorwyr Lleol eu cyflwyno; wrth fynd drwy'r broses hon, gallai fod yn sail i gynlluniau mwy llwyddiannus, yn enwedig yn ardaloedd y cymoedd. Ychwanegwyd bod swyddogion yn

ystyried ehangu'r rhwydwaith ar gyfer llwybrau hamdden a bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei hailystyried i ystyried y cynnig gwledig. Esboniodd swyddogion fod ymgynghoriad cychwynnol wedi'i gynnal ar y mapiau teithio llesol, y cafwyd ymateb da iddo; wrth i'r cynlluniau gael eu cyflwyno fel rhan o'r broses fapio, bydd Cynghorwyr Lleol yn ymwneud â hyn.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith eu bod yn annog eu cymunedau i ddefnyddio'r grant LEADER a gofynnwyd a oedd ffordd o symleiddio neu newid y broses ar gyfer derbyn cyllid yn y dyfodol, er mwyn i'r grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau eraill allu defnyddio'r cyllid i gyflawni'n effeithiol yn y cymunedau. Roedd swyddogion yn ymwybodol bod y broses ymgeisio wedi'i symleiddio ar y ddealltwriaeth fod grwpiau cymunedol bach yn gweld y broses yn anodd; roedd gwneud cais am gyllid dan drothwy penodol bellach yn broses ymgeisio fer iawn ac roedd swyddogion yn nhîm y Cynllun Datblygu Gwledig ar gael i ddarparu cymorth i lenwi'r cais a chyflawni'r prosiect.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 4. <u>YMGYNGHORIAD AR GYNIGION CYLLIDEB 2021/22</u>

Derbyniwyd trosolwg o gynigion cyllideb drafft Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac Eiddo ac Adfywio 2021/2022, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd unrhyw doriadau arfaethedig mewn cyllidebau ar gyfer yr adrannau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac Eiddo ac Adfywio yn 2021/22.

Nododd yr adroddiad fod pwysau cyllidebol o £30k ar Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd; Rhoddodd swyddogion fanylion am y pwysau penodol a oedd yn cynnwys:

- Gwasanaeth Rheoli Nawdd Asedau – roedd y cynllun hwn wedi bod ar waith ers peth amser ac wedi rhoi cyfle i gwmnïau lleol noddi asedau'r cyngor a hyrwyddo’u busnesau. Rhagwelwyd yr effeithir yn sylweddol ar yr incwm a gynhyrchir o'r gwasanaeth o ystyried effaith ariannol y pandemig ar fusnesau a'u gallu i noddi asedau; roedd y pwysau o £15k a nodwyd ar gyfer 2021/22 yn adlewyrchu'r bwlch disgwyliedig mewn cynhyrchu incwm islaw'r trothwy targed;
- Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) – roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu ymrwymiadau a

blaenoriaethau ariannu, ac o ganlyniad i hyn nid oedd y tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt wedi cael cadarnhad eto a oeddent wedi llwyddo o ran dyfarniad grant sylweddol sy'n gysylltiedig â Phrosiect 'Cysylltu Isadeiledd Gwyrdd' De-orllewin Cymru. Cyfanswm y cais grant cychwynnol oedd cyllideb o £2.42 miliwn dros 3 blynedd, ac roedd £981k ohono'n wariant uniongyrchol i'r cyngor. Roedd llawer o'r prosiectau a gyflwynwyd a'r staff yn dibynnu ar gyllid grant yn gyffredinol; roedd y pwysau o £15k a nodwyd yn 2021/22 yn adlewyrchu'r costau staff sefydlog i'w hariannu drwy'r Grant ENRaW heb ei gadarnhau;

- Cynllun Datblygu Lleol – ni nodwyd pwysau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf o ran y CDLl, yn bennaf oherwydd yr oedi wrth gychwyn proses y CDLl yn ffurfiol, felly ar hyn o bryd roedd digon o arian yng nghronfa wrth gefn y CDLl i dalu'r gwariant rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, nodwyd pwysau o £100k yn 2022/23, a oedd ar gyfer yr ymrwymiad parhaus i dalu costau paratoi'r CDLl.

Tynnwyd sylw at y risgiau canlynol i'w cario ymlaen ar gyfer yr is-adran Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (nid oedd y risgiau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y pwysau ar hyn o bryd):

- Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (POD) a Gweithlu Swyddogion Gorfodi COVID – y sefyllfa bresennol oedd bod y gweithlu POD wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru tan 31 Mawrth 2021, a'i ariannu'n rhannol ar gyfer chwarter cyntaf 2021/22. Nodwyd mai dim ond tan 31 Mawrth 2021 yr oedd y Gweithlu Gorfodi COVID yn ei ariannu'n llawn; ariannwyd y gweithlu hwn ar hyn o bryd drwy'r Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol, ac roedd swyddogion wedi derbyn cadarnhad na fyddai'r ffrwd ariannu benodol hon yn cael ei hestyn i 2021/22. Roedd swyddogion yn trafod â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd er mwyn cadarnhau eu disgwyliadau o'r Gwasanaeth POD a'r Gweithlu Gorfodi COVID wrth fynd ymlaen i'r flwyddyn nesaf;
- Ôl-groniad o waith 'Busnes fel Arfer' Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach – roedd swyddogion ar draws y gwasanaeth wedi'u hadleoli i'r rheng flaen fel rhan o ymateb ehangach y cyngor i'r pandemig; o ganlyniad i hyn, roedd ôl-groniad o waith 'busnes fel arfer' erbyn hyn. Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn rhoi enghreifftiau o'r meysydd lle'r oedd yr ôl-groniad o waith wedi datblygu, ac roedd angen edrych ar sut mae'r cyngor yn defnyddio adnoddau er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad.

O ran Eiddo ac Adfywio, nodwyd bod pwysau cyllidebol o £549k wedi'i nodi a oedd yn rhoi lwfansau ar gyfer y canlynol:

- Mesurau Datgarboneiddio gan gynnwys staffio a chynnal a chadw pwyntiau ailwefru ar gyfer cerbydau trydan – fel rhan o'r Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE), bydd y cyngor yn edrych ar gynllun sy'n symud y cyngor ymlaen i fod yn garbon niwtral; roedd nifer o bwyntiau gwefru Cerbydau Trydanol (CT) wedi'u gosod i wasanaethu'r cerbydlu CT a oedd yn cynyddu o ran maint. Roedd cynlluniau hefyd i gyflwyno pwyntiau gwefru CT i'r gymuned at ddefnydd y cyhoedd; roedd darn o waith yn cael ei gwblhau lle byddai Castell-nedd Port Talbot a gweddill De-orllewin Cymru yn gysylltiedig â strategaeth newydd. Nodwyd pwysau o £50k yn 2021/22 a fyddai'n cynyddu i £100k ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol i fynd i'r afael â'r ehangiad hwn a chynnal yr isadeiledd CT;
- Gostyngiad yn y gyllideb sy'n seiliedig ar incwm oherwydd effeithiau parhaus COVID - roedd nifer o adeiladau a oedd yn eiddo i'r cyngor, gan gynnwys unedau diwydiannol, adeiladau manwerthu a swyddfeydd, lle rhoddwyd cyfnodau di-rent iddynt oherwydd effaith y pandemig i sicrhau y gallant barhau i weithredu. Gwnaed darpariaeth o £250k yn y gyllideb ar gyfer 2021/22 a £100k ar gyfer 2022/23 a fyddai'n talu am y gostyngiad mewn incwm o ganlyniad i'r cyfnodau di-rent a nifer y 'bylchau' rhent tebygol gan nad oedd busnesau'n gallu parhau i weithredu ac roedd tenantiaid newydd yn anos dod o hyd iddynt;
- Cynnydd mewn Ardrethi Annomestig (AA) Cenedlaethol parthed Hen Adeilad y Goron – roedd y gwaith adnewyddu i'w orffen yn fuan a disgwylid i’r broses drosglwyddo gael ei chwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf; cyn gynted ag y dychwelwyd yr adeilad, byddai'r cyngor wedyn yn atebol am AA. Pennwyd darpariaeth o £79k yn y gyllideb a fyddai'n cwmpasu'r cyfnod interim;
- Swyddogion Canol Tref Ychwanegol – ar hyn o bryd, roedd y cyngor yn gweithredu ag un unigolyn a oedd yn gofalu am holl ganol trefi'r Sir; nodwyd bod hyn yn her ac felly cynigiwyd penodi dau swyddog ychwanegol i roi cymorth ychwanegol i wneud y gwaith, gan gynnwys mynd i'r afael â materion sy'n codi yn ystod y dydd. Gan y byddai'n heriol o hyd i dri swyddog reoli pob canol tref, byddent yn cysylltu'n agos ag ardaloedd

eraill o'r cyngor megis gorfodi traffig a gofal strydoedd, partneriaid fel yr Heddlu a busnesau yn yr ardaloedd i ddarparu presenoldeb gweladwy yng nghanol y dref;

- Staff ychwanegol ar gyfer Adfywio, Datblygu Economaidd a Chymorth Busnes – roedd nifer y staff yn yr adrannau hyn wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd swm a chymhlethdod y gwaith wedi cynyddu; felly cynigiwyd darparu cymorth ychwanegol o ran staff i gyflawni'r rhaglenni presennol (gan gynnwys y Fargen Ddinesig), i barhau i wneud cais llwyddiannus am gyllid yn y dyfodol, ac i alluogi CNPT i geisio arwain ar raglenni rhanbarthol.

Hysbyswyd y Pwyllgor am rai o'r risgiau sydd i'w parhau ar gyfer yr is-adran Eiddo ac Adfywio:

- Cymorth Busnes a Datblygu Economaidd – er y byddai'r £100k ychwanegol a amlinellwyd yn yr adroddiad yn darparu staff ychwanegol yn y gwasanaeth, roedd yn annhebygol y byddai'n ddigon i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth a gyflwynwyd ac wrth symud ymlaen â dilyniant, efallai y byddai angen cymorth ychwanegol yn yr ardaloedd hynny;
- Datgarboneiddio – pe bai'r cyngor yn cyrraedd y targed o fod yn garbon niwtral erbyn 2030, byddai angen cymorth refeniw ychwanegol a buddsoddiad cyfalaf mawr.

Mewn perthynas â'r mesurau datgarboneiddio, gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch paratoi'r strategaeth a chynllunio ar gyfer yr isadeiledd. Esboniodd swyddogion fod hwn yn un o'r prosiectau o fewn rhaglen arloesedd twf carbon isel ategol y Fargen Ddinesig, a oedd yn canolbwyntio ar arwain CT ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru; sefydlwyd grŵp strategaeth CT ar gyfer y rhanbarth, ac roedd swyddogion wedi cysylltu'n ddiweddar â'r grŵp hwn i helpu i gyflawni'r prosiect. Soniwyd bod swyddogion hefyd wedi bod yn cyfathrebu â chwmni a oedd wedi gwneud gwaith ar hyn yn Dundee, yr oedd ganddi un o'r isadeileddau gorau yn y DU. Hysbyswyd yr Aelodau fod llawer o waith i'w wneud o hyd, ond roedd cynnydd da yn cael ei wneud; byddai'r cyngor yn gweithio ar ei strategaeth ei hun, yn ogystal â'i chysylltu â'r strategaeth ranbarthol. O ran amserlenni, nodwyd y byddai'r strategaeth CT ranbarthol yn cael ei chyflwyno am benderfyniad maes o law, ac os caiff ei derbyn, byddai'r penderfyniad hwnnw'n darparu'r cyllid ar gyfer y rhanbarth; bydd canlyniad hyn wedyn yn pennu cynllun a strategaeth y cyngor i sicrhau nad yw'n gwrthdaro â'r rhanbarthau. Dywedwyd y byddai'n cymryd tua 6 mis i

symud y prosiect hwn yn ei flaen i sefyllfa resymol; yn y cyfamser, roedd y cyngor yn gwneud cynnydd, er enghraifft nodi lle gellid gosod y pwyntiau gwefru CT.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd cerbydlu'r cyngor wedi'i ehangu, a chadarnhawyd bod nifer y cerbydau yn y cerbydlu wedi cynyddu; roeddent yn gweithio'n dda ac roedd y staff yn hapus i'w gyrru. Ychwanegwyd y byddai nifer y faniau yn y cerbydlu'n cael ei gynyddu ac y byddant yn cael eu cyflwyno'n fuan o fewn y misoedd nesaf; Roedd swyddogion yn y broses o roi'r isadeiledd ar waith er mwyn ehangu'r cerbydlu ymhellach, gan fod angen digon o bwyntiau gwefru i wneud hyn.

Gofynnwyd a fyddai swyddogion canol y dref, fel rhan o'u rôl, yn ceisio gwella agweddau diwylliannol canol trefi. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai eu rôl yn canolbwyntio ar reoli beunyddiol; fodd bynnag, pe bai mwy o staff yn cael ei nodi dros gyfnod o amser, yna gellid ychwanegu tasgau ychwanegol at y rôl lle y bo'n briodol. Dywedwyd y byddai'r swyddogion yn cynorthwyo gyda gwyliau a digwyddiadau pan oeddent yn cael eu cynnal eto; gellid ehangu eu rôl yn hyn o beth yn y dyfodol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod cynnal digwyddiadau yng nghanol trefi yn anodd oherwydd yr angen i ddod â generaduron i mewn, felly roedd mannau trydanol dros dro wedi'u cyflwyno yng Nghastell-nedd, Port Talbot, Pontardawe a Glyn-nedd er mwyn i ddigwyddiadau ddigwydd yn hawdd, yn enwedig digwyddiadau llai.

Eglurodd swyddogion fod y term 'CDLl newydd', a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun y bydd y CDLl presennol yn parhau hyd nes y mabwysiadwyd y CDLl newydd. Ychwanegwyd y byddai swyddogion yn edrych ar berfformiad cyffredinol y CDLl gan fod rhai meysydd lle nad oedd y polisïau'n perfformio fel y rhagwelwyd - y meysydd polisi hyn fyddai ffocws y broses adolygu; bydd rhannau o'r CDLl hefyd sy'n perfformio'n ddigonol ac yn ddigon da.

Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â grant ENRaW, nad oedd swyddogion, fel y soniwyd eisoes, wedi cael cadarnhad ynghylch a oedd y Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt wedi llwyddo i gael y grant hwnnw. Hysbyswyd yr Aelodau fod y grant penodol hwn ac eraill yn cael eu hystyried gan Banel Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnos yn dechrau 22 Chwefror 2021, felly dylai swyddogion gael gwell syniad o safbwynt y cyngor erbyn hynny. Nodwyd bod y grant cychwynnol wedi'i gyflwyno am £2.4 miliwn dros

3 blynedd, fodd bynnag fyddai bellach yn dod yn wariant dwy flynedd mewn gwirionedd gan na fyddai'r grant hwn yn mynd y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23; o ganlyniad i hyn, bydd angen ailbroffilio'r gyllideb a phrosiectau.

Ar ôl craffu ar fanylion y gyllideb a gynhwyswyd yn yr adroddiad, atgoffwyd yr Aelodau y byddai eu sylwadau o'r cyfarfod hwn yn ffurfio rhan o'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar gyfer cyllideb 2021/22. Gofynnwyd iddynt, os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill ar gyfer arbedion cyllidebol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad amgaeedig, fynd ati i gysylltu â swyddogion i'w hystyried.

**CADEIRYDD**

# Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee

**(Remotely via Teams)**

**Members Present:** **17 March 2021**

| | |
|---|---|
| **Chairperson:** | **Councillor S.K.Hunt** |
| **Vice Chairperson:** | **Councillor R.L.Taylor** |
| **Councillors**: | D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans and S.A.Knoyle |
| **Officers In Attendance** | S.Curran, C.Griffiths, K.Jones and M.Shaw |

---

1. **To appoint the Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee**


**RESOLVED**: that the Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee be appointed for the Civic Year 2021/22 and the membership be affirmed as set out in the report of the Council meeting of 17th March, 2021.

That Cllr S Hunt and R Taylor be appointed Chair and Vice Chair of the Leisure and Culture Sub Committee for the Civic Year 2021/22.

**CHAIRPERSON**

This page is intentionally left blank

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



# Community Safety

## Violence Against Women Domestic Abuse & Sexual Violence During the Pandemic

www.npt.gov.uk

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# OFFICERS

- Elinor Wellington – Principal Officer for Community Safety
- Lisa Potterton – VAWDASV Policy
- Allyson Fisher – Senior Independent Domestic Violence Advisor

# Domestic Abuse

- Since the start of the Covid-19 pandemic, there was concern over an anticipated 'spike' in domestic abuse at a local and national level
- There was little time to prepare or adapt services for this expected demand.
- From the introduction of the UK lockdown in March 2020, local support services saw a 40% increase in demand.
- This included our Independent Domestic Violence Advisors service who specialise in supporting our highest risk victims.
- Rather than a 'spike' in demand, the increase remained consistent across all services

# Domestic Abuse


- An extraordinary Leadership Group was called to speak to partners about their immediate concerns, demands, as well as funding and staffing matters
- Services acted upon their resilience plans and tried to adapt services to home working, whilst maintaining a presence in our local refuges to support those at greatest risk.
- Additional deep cleaning services were required, as well as PPE and appropriate risk assessments to safeguard staff and residents alike.

# Domestic Abuse

- The nature of the violence being experienced was more severe and escalating far more quickly than what is ‘typically’ seen
- New referrals were received from those not known to services before, and were immediately being considered high risk
- Far more disclosures were being made in health settings, as people had to attend appointments alone
- Services faced further additional challenges because all housing allocations were put on hold and cases were not being heard in court
- Cases open to the IDVA’s could not be ‘stepped down’ to local specialist providers and this started to generate a backlog

# IDVA Referrals

IDVA Referrals (April 2019 - Jan 2021)



# Domestic Abuse – IDVA Service

- The IDVA team mobilised the service from home
- The level of service was well maintained despite not having access to Niche (SWP database)
- Despite the challenges, engagement rates were up to 67%, which is exceptionally high when compared to previous years
- For some victims, they felt better able to engage through the lockdown period
- However, some of our repeat victims with complex needs did not access services as routinely – there is a piece of work to be done to establish the reasons

# Domestic Abuse - Funding

- During 2020/21 Welsh Government awarded an additional £130k of funding to VAWDASV services in NPT, to assist with the additional demand and pressures caused by the Covid-19 pandemic.
- However, this money came in various streams, with differing criteria
- Some examples of how this funding was used;
  - Our  Communications and Engagement Group further promoted local services to reassure people that help was still available.
  - To train local specialist providers staff on working with perpetrators
  - To contribute to the employment of 2 additional IDVA's.

# Domestic Abuse

- To support local refuges and accommodation with PPE, cleaning products and any additional facilities to help them better respond to the new needs placed on services and to keep residents safer

- The Police and Crime Commissioner awarded funding to employ a regional DRIVE IDVA, to support the roll out of the DRIVE perpetrator programme in NPT.

- Housing Support Grant has been used to purchase additional target hardening equipment for victims, including window locks, panic alarms, security lights etc.

# VAWDASV Strategy

- In April 2020 the new NPT VAWDASV strategy ‘Healthy Relationships for Stronger Communities’ was introduced
- As a result of the pandemic, an addendum to the strategy outlined the areas that could be progressed, and those that may need to postponed temporarily
- The Leadership Group and its sub groups continue to make excellent progress on the key objectives in the strategy, despite having additional demands and challenges to address;

# VAWDASV Strategy

## Communications & Engagement

The sub group has mobilised. Leaflets and banners to promote local services have been widely distributed.

## Relationship and Sexuality Education

Lesson delivery was paused during the pandemic and key events like Crucial Crew were paused. Plans to restart these are underway.

## Perpetrator Work

Ongoing work with PCC on Drive roll out. Continued discussions on the expansion of Swansea Equilibrium Programme into NPT

# VAWDASV Strategy

**Training**

Work continues on the roll out of Group 2 training across Swansea and Neath Port Talbot. Group1  eLearning remains available while face to face delivery is paused

**Courts & Criminal Justice**

Courts have now reopened and cases are being heard. Our IDVA staff hope to return to court soon to support victims with the process. Developments underway for increased remote evidence facilities across Wales.

# Latest Developments

**Safe Spaces for Women**

Following the recent murder of Sarah Everard in Clapham, and the subsequent public outcry on Women's safety in public, a Task & Finish group has been convened to;

- design and implement a #SafeSpaceNPT campaign,
- consider safety apps,
- Consider training for hospitality staff and taxi drivers,
- Develop awareness raising, including in education settings and;
- consider additional ways to work with perpetrators

# Latest Developments

**Children and Young Peoples Services**

Following the increase in Domestic Abuse referrals for adults, there was some concern that referrals into specialist CYP services did not reflect this. A Task and Finish group was convened to;

- Look at demands into services and offer reassurance to the Leadership Group that appropriate referrals were being made
- Establish whether Social Services have delivered more in-house throughout the pandemic
- Identify whether some local specialist providers have launched new services during the pandemic that have not been as widely promoted as they would have pre-covid
- Complete a mapping exercise of all services and develop an information leaflet on available services and their criteria for wider circulation

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council




www.npt.gov.uk

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

Tudalen35

# SCRUTINY

# FORWARD WORK PROGRAMME

# March 2021 – 2022

Eitem yr Agenda7

## CONTENTS


| **COMMITTEE** | **Officer Responsible** |
|---|---|
| Cabinet Scrutiny Committee | **Charlotte Davies / Chloe Plowman** |
| Education, Skills and Culture Scrutiny Committee | **Charlotte Davies** |
| Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee | **Charlotte Davies** |
| Social Care, Health and Wellbeing Scrutiny Committee | **Charlotte Davies** |
| Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee | **Chloe Plowman** |
| Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee | **Chloe Plowman** |
| Streetscene and Engineering Scrutiny Committee | **Chloe Plowman** |

# Cabinet Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 8th March | Budget Special (please see Cabinet FWP for items) | Hywel Jenkins |
| | | |
| 16th March | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 7th April | Meeting cancelled | |
| | | |
| 12th May | Items to be confirmed | |
| | | |
| 2nd June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 30th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 28th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 1st September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 22nd September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 20th October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th November | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 15th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 12th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th February | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 6th April | Items to be confirmed | |
| | | |
| 4th May | Items to be confirmed | |
| | | |

# Education, Skills and Culture Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 18th March | Update Report on Libraries | Andrew Thomas |
| | Report on the work of Cynnydd and the Wellbeing Service | Andrew Thomas |
| 29th April | Update on Leisure | Andrew Thomas/Paul Walker |
| | | |
| 10th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 22nd July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 2nd September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 14th October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 25th November | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 6th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th February | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 31st March | Items to be confirmed | |
| | | |

Tudalen40

# Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 1st July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 23rd September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 16th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 10th March | Items to be confirmed | |
| | | |

## Social Care, Health and Wellbeing Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 1st April | Update on Homelessness | Angela Thomas |
| | | |
| 13th May | Impact of dischargers from hospitals on the availability of care packages. An update on Delayed Transfer of Care (DTOCS) | Angela Thomas |
| | Update Report on the impact of Covid-19 on Disabled Facilities Grants | Andrew Jarrett |
| 24th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 29th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 16th September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 21st October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 20th January | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| 3rd March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 7th April | Items to be confirmed | |
| | | |

# Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 16th April | Trends in Domestic Abuse | Claire Jones/Elinor Wellington |
| | | |
| 14th May | Update Report on Active Travel | Ceri Morris |
| | | |
| 25th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 30th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 10th September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 22nd October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 3rd December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 14th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 4th March | Items to be confirmed | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 8th April | Items to be confirmed | |
| | | |

# Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 9th July | Neath Town Centre Anti-Social Behaviour | Elinor Wellington |
| | | |
| 1st October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th December (2.00 pm) | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 18th March | Items to be confirmed | |
| | | |

## Streetscene and Engineering Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 26th March | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 21st May | Items to be confirmed | |
| | | |
| 2nd July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 24th September | Items to be confirmed | |
| | | |
| [illegible]th November | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 28th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 11th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 29th April | Items to be confirmed | |
| | | |

**To be scheduled in:**

- Road Traffic Regulations – The Enforcement Service

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag